# Swydd-Ddisgrifiad

**Rôl**
Diffoddwr Tân (Prentis)

**Lleoliad**
Yn unol â chyfarwyddyd y Prif Swyddog Tân

**Prif Nod:** Amddiffyn ac achub pobl ac eiddo rhag tân a pheryglon eraill yn y dull mwyaf galluog ac effeithiol i'r safon uchaf bosibl o ofal ac ansawdd.

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

***Argyfyngau***

- Ymateb ar unwaith ac yn ddiogel i bob galwad argyfwng a cheisiadau am gymorth.
- Delio ag argyfyngau yn unol â chyfarwyddiadau a gweithio'n effeithiol ac effeithlon fel aelod o dîm disgybledig.
- Lleihau trallod a dioddefaint, gan gynnwys rhoi gofal cymorth cyntaf.

***Delio â Phobl***

- Sefydlu a chadw hyder aelodau'r cyhoedd.
- Cynnal cysylltiadau o fewn y gymuned.
- Bod yn sensitif i anghenion eraill mewn perthynas â materion tegwch ac urddas.

***Diogelwch Tân***

- Rhoi cyngor cyffredinol ar ddiogelwch tân i bobl pan ofynnir am hynny.
- Gweithio i helpu i addysgu aelodau'r gymuned ar risgiau a pheryglon tân ac argyfyngau eraill.
- Cynorthwyo gyda mentrau, rhaglenni a strategaethau'r Gwasanaeth i leihau nifer galwadau tân.

***Iechyd a Diogelwch***

- Adnabod materion iechyd a diogelwch yn y gwaith a delio gyda nhw i leihau neu ddileu'r perygl neu'r risg.
- Sicrhau diogelwch personol a diogelwch eraill bob amser.

***Ffitrwydd a Glendid Personol***

- Cynnal lefel o ffitrwydd corfforol a meddygol fel y bo angen i ymgymryd â dyletswyddau Diffoddwr Tân.
- Cynnal eich edrychiad personol, glendid a sicrhau bod gennych lifrai glân yn unol â gwasanaeth disgybledig.

***Offer***

- Cynnal holl offer diffodd tân ac offer argyfwng fel ei fod yn barod i'w ddefnyddio, gan gynnwys glanhau, trwsio a phrofi fel y bo angen i safonau a gweithdrefnau cymeradwy.
- Gwirio adnoddau diffodd tân a ddarperir i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ei ddefnyddio, gan gynnwys hydrantau a gosodiadau sefydlog.

***Daearyddiaeth Leol***

- Gwybod am y strydoedd, ffyrdd ac adeiladau lleol yn ardal ymateb yr Orsaf Dân.
- Bod yn ymwybodol o'r risgiau, peryglon posibl a chyflenwadau dŵr i'w canfod yn ardal yr Orsaf Dân.

***Gweinyddiaeth***

- Cwblhau gwaith papur sylfaenol a gwaith gweinyddol rheolaidd, gan gynnwys cofnodi gwybodaeth.
- Defnyddio technoleg gwybodaeth fel y bo angen ac yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 1998.
- Sicrhau bod cofnodion personol yn cael eu diweddaru.

***Hyfforddiant***

- Cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi barhaus trwy fynychu darlithoedd, ymarferiadau, sesiynau dril a mathau eraill o hyfforddiant i gynnal lefelau cymwysedd.
- Mynychu cyrsiau hyfforddi yn unol â chyfarwyddiadau.

***Awdurdod Tân***

- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill yn gymesur â lefelau cyfrfoldeb ac arbenigedd fel y bo'n ofynnol gan y Prif Swyddog Tân.
- Glynu at bolisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth.

## Y Person

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol / Dymunol | Tystiolaeth |
|---|---|---|---|
| **Gallu Cyffredinol** | Ar gyfer Prentisiaeth Diffoddwyr Tân: TGAU Graddau A-C mewn Mathemateg a Saesneg / Iaith Gymraeg neu gymwysterau cyfatebol (tystiolaeth i'w darparu).<br>Bydd gofyn i ymgeiswyr heb y cymwysterau TGAU angenrheidiol gwblhau Suite Sgiliau Hanfodol Cymru (sgiliau cyfathrebu hanfodol lefel 2 a chymhwyso sgiliau rhif hanfodol) fel dewis arall.<br>Bydd ymgeiswyr yn cael eu cefnogi i gwblhau'r gyfres sgiliau hanfodol yn llwyddiannus, ond efallai y bydd angen gwneud rhywfaint o hyn yn eich amser eich hun.<br>Bydd Sgiliau Rhifedd, Llythrennedd a Datrys Problemau yn cael eu profi (mae profion wedi'u gosod ar Lefel 2 Sgiliau Hanfodol). | Hanfodol | ORA<br>ORA<br>WWI |
| **Gwybodaeth / Profiad** | Medru cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg<br>Ymwybyddiaeth o rôl Diffoddwr Tân | Dymunol<br>Hanfodol | ORA ac SI<br>SL |
| **Modd Bersonol** | Dealltwriaeth o a pharch i wahaniaethau pobl. Ymroddedig i fabwysiadu agwedd deg tuag at eraill<br>Medru cadw agwedd hyderus a chadarn mewn sefyllfaoedd ymestynnol iawn<br>Bod yn agored i newid a'r dymuniad i geisio cefnogi hynny yn weithredol | Hanfodol<br>Hanfodol<br>Hanfodol | ORA ac SI<br>ORA ac SI<br>ORA ac SI |
| **Rhyngbersonol** | Medru gweithio'n effeithiol ag eraill yn y Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn y gymuned<br>Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac ar bapur i amrywiol gynulleidfaoedd gwahanol<br>Ymrwymiad i a'r gallu i ddatblygu eich hun ac eraill | Hanfodol<br>Hanfodol<br>Hanfodol | ORA ac SI<br>ORA ac SI<br>ORA ac SI |
| **Tasg** | Y gallu i ddeall, cofio, defnyddio ac addasu gwybodaeth berthnasol mewn ffordd drefnus, diogel a systematig<br>Medru cynnal ymwybyddiaeth actif o'r amgylchedd i hyrwyddo gweithio'n ddiogel ac yn effeithiol<br>Medru mabwysiadu dull cydwybodol a rhagweithiol tuag at waith i gyflawni a chynnal safonau rhagorol<br>Medru cynnal lefel uchel o weithgaredd wedi ei gyfeirio'n briodol – dangos penderfyniad a'r gallu i weithio'n galed mewn amgylchfyd heriol<br>Medru dilyn gorchmynion a derbyn cyfarwyddyd<br>Gallu aerobig / ffitrwydd priodol<br>Golwg boddhaol a gweld lliwiau'n gywir heb gymorth<br>Clyw boddhaol<br>Medru gweithio ar uchder ac mewn mannau caeëdig | Hanfodol<br>Hanfodol<br>Hanfodol<br>Hanfodol<br>Hanfodol<br>Hanfodol<br>Hanfodol<br>Hanfodol<br>Hanfodol | ORA, WWI ac SI<br>WWI, PP<br>ORA, SI<br>ORA, PP<br>ORA<br>PP<br>MED<br>MED<br>PP |

**Codau Tystiolaeth**
ORA – Cofrestru a Gwneud Cais Arlein
WWI – Profion Gweithio gyda Gwybodaeth
PP – Asesiadau Corfforol ac Ymarferol
SI – Cyfweliad Dethol
MED – Meddygol

# Ein Gwerthoedd Craidd

## Gwasanaethu'r gymuned

**Mae amddiffyn ein cymunedau'n ganolog i bopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy weithio gyda'n partneriaid a grwpiau eraill i leihau risg a bod yn atebol i'r bobl yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

## Ymdrechu dros ragoriaeth

**Rydym ni bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau glas ym mhopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy fod yn arloesol a phen agored, croesawu adborth gan eraill, dysgu o brofiad, cydnabod cryfderau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu.

GWNEUD GOGLEDD CYMRU'N LLE MWY DIOGEL I FYW, GWEITHIO AC YMWELD AG O

## Pobl

**Rydym ni'n gwerthfawrogi'n gilydd -**

trwy arfer tegwch a pharch, cefnogi datblygiad personol, cydnabod teilyngdod, ymrwymo i onestrwydd, cywirdeb a chyd ymddiriedaeth.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydym ni'n galluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau -**

trwy werthfawrogi gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, herio rhagfarn a chamwahaniaethu.